Dathlu Llwyddiant!

Arian i Fadagascar

Adroddiad Blynyddol rhif 35

2020– 2021

Elusen cofrestredig 1001420

"Buddsoddi mewn atebion Malagasaidd i leihau tlodi a gwarchod yr amgylchedd"

Rhagair

Sut allwn ni wrthsefyll Argyfwng Hinsawdd?
O Ymateb Brys i Adferiad a Gwytnwch!

Roedd 2021 yn gyfnod o heriau difrifol ym Madagascar, i'n partneriaid a'r cymunedau ble'r ydym yn gweithio. A hithau'n gynyddol yn llygad storm sy'n cyfuno argyfwng hinsawdd a thlodi, daeth breuder dwys Madagascar i sylw rhyngwladol yn 2021.
Ar ben tlodi eithafol, ansicrwydd bwyd, ansicrwydd tir, bygythiadau i fi-oamrywiaeth a Covid parhaus, yn 2021 cafodd Deheudir Madagascar ei daro gan 'y newyn cyntaf i'w achosi gan argyfwng hinsawdd' (datganiad y Cenhedloedd Unedig yn Awst 2021).

Daeth y peryg i Madagascar i sylw'r byd yng nghynhadledd hinsawdd fyd-eang COP26, lle'r ymunodd AiF gyda'r ddirprwyaeth Falagasaidd i godi ymwybyddiaeth o'r bygythiad dwys i'r wlad oherwydd yr argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth. Yn gefn i Weinidog Amgylchedd Madagascar, fe wnaethon ni ymuno â chynghrair Cymru-Madagascar i alw'r byd i gyfrif am achosi argyfwng hinsawdd Madagascar a thynnu sylw at botensial Madagascar yn wlad a allai gyfrannu at warchod ac adfer bioamrywiaeth a llyncu carbon.
Wrth i'r cyhoedd yn rhyngwladol ddod yn ymwybodol o argyfwng hinsawdd Madagascar, sylwodd rhoddwyr fod Arian i Fadagascar yn gyfrwng tryloyw a dibynadwy i drosglwyddo arian i gyrraedd y cymunedau a effeithir.
Yn wyneb taerineb a phenderfyniad ein partneriaid Malagasaidd, cymunedau Malagasaidd a rhoddwyr byd-eang, bu'n rhaid i ni ddarparu cymorth brys a phecynnau adfer, yn ogystal â pharhau gyda'n hymroddiad diwyro i greu cymunedau gwydn, trwy ein rhaglenni datblygu a chadwraeth tymor hir. Mae breuder Madagascar yn syfrdanol. Mae'r her yn anferth. Allwn ni ddim wynebu hyn ein hunain! Rydym yn ymuno mewn cyn-ghreiriau a phartneriaethau newydd i wynebu'r her hon ynghyd.

A wnewch chi ymuno â ni?

Dathlu Llwyddiant!

A hithau'n 7 oed, rhoddwyd Fenosoa dan ofal Akany Avoko oherwydd fod ei mam wedi ei char-charu a doedd neb i ofalu amdani. Am 17 mlynedd, bu Fenosoa'n ymweld â'i mam yn y carchar, gan addo y byddai'n astudio'n galed, y byddai rhyw ddydd yn cael ei mam o'r carchar ac yn cael swydd i gynnal y ddwy. Eleni, roedd yr holl staff a fu'n gofalu am Fenosoa yn Akany Avoko ac Ankizy Gasy wrth eu bodd yn dathlu llwyddiant Fenosoa'n cael gradd brifysgol. Y person balchaf oedd mam Fenosoa sydd o'r diwedd yn ôl gyda'i merch. Mae Fenosoa bellach yn gweithio gydag Ankizy Gasy i gefnogi ac ysbrydoli myfyrwyr dewr fel hi i wireddu eu breuddwydion.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi cipolwg ar waith AiF yn 2020-21. Ewch i'n gwefan www.moneyformadagascar.org a'n cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf o Madagascar a dysgu am ffyrdd i wirfoddoli a chymryd rhan.

Cysylltwch â ni ar +44 7956147316 admin@moneyformadagascar.org.

www.justgiving.com/moneyformadagascar

Diogelu a Galluogi Plant sy'n Agored i Niwed

Mae'r rhaglen yma'n trawsnewid bywydau plant bregus yn y brifddinas a'r cyffiniau. Bydd plant amddifad, gwael a digartref a rhai a gam-driniwyd yn derbyn lloches, bwyd, gofal iechyd, addysg, dŵr, glanweithdra a gofal cariadus. Caiff plant gefnogaeth tymor hir i'w helpu i oresgyn achosion eu hamddifadedd a gweithio at greu bywydau annibynnol, gwydn.

Eleni, sicrhaodd AiF gyllid i gefnogi'r 8 canolfan blant sydd wrth gallon ein rhaglen: canolfan breswyl Akany Avoko Ambohidratrimo, lloches preswyl Akany Bevalala i fechgyn, lloches preswyl Akany Avoko Faravohitra i enethod, clwb alllgyrsiol Akany Hasina, Cynllun Noddi Myfyrwyr Ankizy Gasy, canolfan Gilpin i gyn-blant-stryd, canolfan breswyl SAF Topaza a chlinig plant a fferyllfa SAF/FJKM. Mae grantiau i'r canolfannau hyn yn helpu i gyflenwi anghenion dyddiol y plant yn ogystal â buddsoddi mewn prosiectau sy'n cynyddu eu gwytnwch tymor hir, megis amaeth hinsawddddoeth, gweithgareddau codi arian, addysg alwedigaethol a mentora i bobl ifanc a hyfforddiant yn yr arferion gorau i staff.

Wrth wynebu graddfeydd dychrynllyd o newyn a diffyg maeth, rydym wedi cynyddu ein rhaglen fwydo i ddarparu prydau dyddiol i filoedd yn rhagor o blant. Rydym yn diolch i'n partneriaid Malagasaidd ALT, Ankizy Gasy, AVM, WTDM, MDI ac AMI am eu hymroddiadi ddarparu prydau dyddiol i gryfhau miloedd o blant newynog. Diolch i bob rhoddwr sy'n cynnal y gwaith bwydo yma, o'r plenty a roddodd ei arian penblwydd i roddwyr mawr fel Mary's Meals sydd ar fin ymuno â rhaglen fwydo AiF.

Bwydo Adeg Newyn yn Amboasary-Sud

Diolch i gyfraniadau hael y cyhoedd, mae AiF yn gallu cefnogi cymunedau i wrthsefyll newyn trwy gyllido mwy na mil o brydau maethlon dyddiol mewn ysgolion.

"Fe ddewison ni fwydo mewn ysgolion am fod hynny'n bwydo meddyliau a chyrff plant," meddai Hanitra, Cyfarwyddwr 'ALT', yr NGO Malagasaidd profiadol sy'n darparu rhaglen fwydo adeg newyn AiF.

Gofynnodd un athro i ni gyfleu eu diolch, gan ddweud:

"Ers i ni ddechrau bwydo, mae fy ysgol I wedi tyfu o 70 i fwy na 300 myfyriwr. Mae'r bwyd yn faethlon. Mae'n ysgogi'r plant i ddod i'r ysgol a, thrwy beidio â bod yn llwgu, gallan nhw ganolbwyntio."

Mae 48% of blant Malagasaidd yn dioddef o nychdod a diffyg maeth

Does gan 50% o deuluoedd ddim dŵr glân na thrydan

Mae 360,000 yn wynebu newyn

Mae AiF yn helpu mwy na 17,000 o bobl mewn 95 cymuned i gael dŵr glân, maeth a sicrwydd bwyd.

Coedwigoedd a Bywoliaeth

Mae Madagascar, un o genhedloedd tlota'r ddaear, bellach ynghanol yr argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth. Mae'r rhaglen hon yn ceisio creu cymunedau gwydn, cynaliadwy ac amddiffyn bioamrywiaeth. Mae'n ymestyn o goedwigoedd glaw y Dwyrain i arfordir sych y Gorlleiwn, gan ganolbwyntio ar dirweddau bregus a darnau o goedwig.

Mae ein Rhaglen Coedwigoedd Gwydn a Bywoliaeth yn datblygu'n dda diolch i gyfraniadau gwerthfawr cymunedau'r coedwigoedd, partneriaid o NGOau Malagasaidd, ymchwilwyr, asiantaethau llywodraeth a'r gymuned gadwraeth ehangach. Trwy' wrando'n astud a dysgu o lwyddiannau a methiannau, rydym yn creu rhaglen radical newydd i wynebu heriau'r dyfodol.

Trwy ddull integredig AiF, mae'r rhaglen yn buddsoddi i gryfhau cymunedau o amgylch mannau amgylcheddol tyngedfennol fel bod ganddyn nhw'r adnoddau angenrheidiol i fod yn warcheidwaid amgylcheddol da, gyda'r gallu i yrru cadwraeth leol.

Bydd prosiectau lleol yn amrywio'n ôl anghenion cymunedau. Bydd gweithgareddau craidd yn canolbwyntio ar hyfforddi ac offer ar gyfer amaeth hinsawddddoeth, cymorth gyda chodi incwm cynaliadwy, addysg amgylcheddol ac ailgoedwigo. Mae angen ychwanegu gweithgareddau cefnogi Iechyd a WASH at y rhaglen newydd i gyflawni agwedd integredig AiF at greu Gwytnwch.

Hyfforddi yn Betampona

Bywoliaeth ym Melaky



Plannu coed

Dosbarthiadau cymunedol gydag Assoc. Mitsinjo

Cynllun Darwin 'Ieuenctid tros Lemwriaid'

Mewn enghraifft newydd o gydweithio, rydym yn llawn cyffro i gyhoeddi ein bod, yn Hydref 2021, wedi lawnsio prosiect cadwraeth newydd gyda chyllid 'Cynllun Darwin' Llywodraeth y DU. Y prif bartneriaid sy'n darparu'r prosiect yw AiF, Madagasikara Voakajy, Assoc Mitsinjo a CBD.

Mae'r prosiect yn taclo un o brif achosion colledion cynyddol bioamrywiaeth Madagascar: angen y boblogaeth gynyddol i glirio coedwigoedd i ffermio. O amgylch tair Gwarchodfa yn nwyrain Madagascar, byddwn yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i 200 o bobl ifanc allu cynyddu lefelau cynnyrch trwy ffermio cynaliadwy, defnydd o blanhigion persawrus a meddygol a marchnata eu cynnyrch o'r coedwigoedd yn llwyddiannus gyda mentrau moesegol. Bydd y bobl ifanc yn rhannu eu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad newydd yn eu cymunedau gan gynnwys holl aelodau'r cymunedau yn stiwardiaeth cadwraeth lemwriaid.

Madagascar yw un o'r 20 gwlad sydd dan fwyaf o fygythiad

Hyd yma, plannwyd 280,000 o goed trwy brosiectau cymunedol AiF. Caiff 30,000+ o goed eu plannu a'u cynnal bob blwyddyn.

Addysg am Oes

Mae AiF yn gweithio mewn partneriaeth gyda Sefydliad Adsum i gynnig gobaith a ffyniant i blant cefn gwlad Madagascar. Mae gan blant mewn ysgolion anghysbell bellach gyfle i lwyddo, diolch i'n Rhaglen Addysg am Oes sy'n darparu stafelloedd dosbarth newydd, dŵr, toiledau, llyfrau, hyfforddiant athrawon, addysg amgylcheddol, gerddi cegin, ffreuturau ysgol ac ynni haul. Cymerodd **63** o ysgolion mewn pedair rhanbarth ran yn y rhaglen yn 2020-21.

Grym Rhieni

Rhieni anllythrennog yw chwarter y myfyrwyr ysgol yn ein Rhaglen Addysg am Oes. Bydd rhieni yn llythrennog yn stryffaglu i gefnogi addysg eu plant. Nawr, rydym yn cynnig cyrsiau 'llythrennedd er mwyn datblygu' sy'n dechrau trwy daclo llythrennedd a rhifedd cyn cefnogi rhieni i sefydlu gweithgaredau codi incwm, megis cynhyrchu compost mwydod neu dyfu coed ffrwythau. Mae ein graddedigion cynta'n falch eu bod bellach yn gallu helpu astudiaethau eu plant ac ennill rhagor o arian i dalu ffioedd ysgol. Rydym bellach yn chwilio am gyllid i ymestyn y cyfle hwn i gannoedd o deuluoedd eraill.

Gwaddol Hardy

Eleni bu raid i ni ffarwelio â Hardy Rahoby Wilkinson, a oedd yn weithwraig gymdeithasol ysbrydoledig, yn pledio hawliau genethod ac yn 'fam' i filoedd o blant Malagasaidd a gymerodd dan ei hadain.

Rydym bellach wedi lawnsio rhaglen fentora ieuenctid sy'n crisialu gwerthoedd Hardy. Fel Hardy, rydym eisiau dangos y gall pob person ifanc, o gael cariad a buddsoddiad yn eu sgiliau, gyrraedd eu potensial i fod yn ddinasyddion caredig, llawn gofal sy'n gwasanaethu'u cymuned. Bydd y rhaglen newydd yma, dan arweiniad ein partner Ankizy Gasy, o fudd I bobl ifanc yn ein Rhaglen Addysg am Oes a'n Rhaglen Plant Agored i Niwed

Does gan 80% o athrawon ddim hyfforddiant na chyflog sefydlog

Mae 23% o oedolion yn anllythrennog

Bydd 4 o bob 10 plentyn yn rhoi'r gorau i'r ysgol gynradd

Caiff 15,000+ o blant o 80 ysgol well adnoddau addysg ac addysgu yn Rhaglen Addysg am Oes AiF.

Adroddiad Ariannol 2020-21





Er fod Covid wedi taro'r Deyrnas Unedig a Madagascar, rydym wedi cynnal ein cefnogaeth i'n partneriaid a'n buddiolwyr. Diolch i haelioni ein rhoddwyr, rydym hefyd wedi gallu cynnig cymorth ariannol ychwanegol i liniaru'r dioddef a achoswyd gan Covid, sychder a newyn.

Codwyd £443,857 yn 2020-21. Trwy gadw gafael tynn ar ein costau a defnyddio ein cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig yn ddoeth, fe gynyddon ni ein gwariant ar weithgareddau elusennol o 88% i 91% o'n gwariant blynyddol, gan anfon £340,532 i Fadagascar. Diolch i fil o oriau a roddwyd gan wirfoddolwyr, yn ogystal â gwaith caled staff ac ymddiriedolwyr, cadwyd costau gweinyddol y DU i ddim ond 8.6% o'n gwariant yn 2020-21.

Yn gynyddol, mae AiF yn cefnogi NGOau Malagasaidd i gael grantiau'n uniongyrchol gan gyllidwyr. Er enghraifft, rydym newydd helpu sicrhau grant Cynllun Darwin gwerth £286k gyda Madagasikara Voakajy & Assoc Mitsinjo. Fydd incwm grant sy'n cael ei godi'n uniongyrchol gyda phartneriaid ddim yng nghyfrifon AiF y DU, ond mae'n ganlyniad pwysig i fuddsoddiad AiF mewn datblygu rhaglennni, codi arian a chreu capasiti, gan ein helpu i gyrraedd ein nod o alluogi pobl Madagascar i yrru eu gwaith datblygu a chadwraeth

Ar hyn o bryd, £323,430 yw cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig yr elusen. Bydd cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer 2020-21 yn gostwng y rheiny i £220K. Dyma'r trothwy isaf, ar sail cadw '90 niwrnod o holl wariant AiF neu 365 niwrnod o'r costau craidd, p'run bynnag

Irenée Rajaona-Horne, Cyfarwyddwr **Eifion Griffiths, Trysorydd Mygedol**

Mae cyfrifon llawn AiF a rhestr o Ymddiriedolwyr a Noddwyr ar wefannau AiF a Chomisiwn Elusennau'r DU. Gallwch ofyn am gopïau papur o Swyddfa AiF. .

Cyfeiriad MfM: Langthwaite House, Lancaster LA2 9EB, UK